Synnwyr Bwyd Cymru
Food Sense Wales

Ebrill 2025

LLYSIAU O GYMRU AR GYFER YSGOLION
WELSH VEG IN SCHOOLS

# TUNELLI O NEWID

## LLYSIAU O GYMRU AR GYFER YSGOLION
2023 - 2025

# ADRODDIAD LLAWN




**Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** 2023 - 2025 **Adroddiad Llawn**

**Gan Dr. Amber Wheeler ar gyfer Synnwyr Bwyd Cymru**

**Cyfranwyr:** Katie Palmer, Sarah Gould, Edward Morgan, Elaine Blanchard, Alex Cook, Tony Little, Lorraine Powell, Emma Evans, Sian-Elin Davies, Caz Falcon, Hannah Gibbs, Pearl Costello, Dafydd Walters a Symon Dovey.

**Ynglŷn â'r awdur:** Mae Dr. Amber Wheeler yn arbenigwr mewn Ymchwil Weithredu ac yn gweithio o fewn tîm **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** i gefnogi'r monitro, gwerthuso, dadansoddi a'r myfyrio parhaus ar y canfyddiadau.

## CYNNWYS

| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 3 |
| Diweddariad cyd-destun polisi | 5 |
| Strwythur **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** | 13 |
| Beth sydd ei angen i wneud i hyn ddigwydd? | 15 |
| Manteision cyflenwad organig lleol | 16 |
| Crynodeb cost a budd | 24 |
| Gweledigaeth | 34 |
| Casgliad | 36 |
| Argymhellion | 37 |



# CYFLWYNIAD



Yn wyneb hinsawdd sy'n newid, ansefydlogrwydd gwleidyddol byd-eang a niferoedd cynyddol o aelwydydd yn methu â fforddio deiet iach; mae yna ymdeimlad cynyddol o frys i sicrhau bod Cymru'n gallu cynhyrchu'r cynhwysion ar gyfer deiet iach, a hynny mewn ffordd gynaliadwy.

Mae cynhyrchiant llysiau'r DU yn dirywio ac mae Llywodraeth Cymru[1] ac eraill wedi bod yn galw am gynnydd yn ein cynhyrchiant domestig, er mwyn meithrin gwydnwch ac i gyflawni cyfrifoldeb byd-eang i fod yn llai dibynnol ar gynnyrch o wledydd sy'n agored i niwed o ran hinsawdd.

Mae sawl adroddiad wedi'i ysgrifennu am yr heriau canfyddedig yn ogystal â phrosesau caffael cyhoeddus o ran gwireddu'r potensial i annog a darparu marchnad ar gyfer cynnyrch lleol mwy cynaliadwy. Mae dau ddatblygiad; Deddf Gwerthoedd Cymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023[2]; a'r ymrwymiad i ddarparu Prydau Ysgol Am Ddim i holl blant ysgolion cynradd, wedi rhoi pwyslais newydd ar rôl arweinyddol y Llywodraeth yn y maes hwn.

Yn 2022 dim ond 6% o'r llysiau[3] a brynwyd ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru a oedd yn dod o Gymru. Mae **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** wedi bod yn mynd i'r afael â sut y gall cynhyrchu llysiau lleol cynaliadwy ddarparu cyflenwadau drwy'r broses gaffael a dangos, drwy ymchwil weithredu, beth yw'r heriau gwirioneddol o gymharu â'r heriau canfyddedig.

Mae hefyd yn darparu tystiolaeth ynghylch y rôl sydd gan gynhyrchu llysiau organig i'w chwarae o ran sicrhau bod garddwriaeth yn yrfa hyfyw, o ran gwella diogelwch bwyd ac iechyd, cynyddu bioamrywiaeth, lleihau allyriadau carbon, lliniaru newid yn yr hinsawdd a meithrin gwydnwch.

1 Llywodraeth Cymru (2024) Datganiad Ysgrifenedig: Datblygu Polisi Garddwriaeth yng Nghymru
2 Legislation.gov.uk (2023) Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023
3 Brookdale Consulting (2022) Caffael Bwyd Sector Cyhoeddus Cymru



Fe wnaeth yr adroddiad ar y Cynllun peilot Courgettes [4] a gyhoeddwyd yn 2023, ddangos ei bod yn bosibl cyflenwi llysiau wedi'u cynhyrchu drwy ddull amaeth-amgylcheddol yng Nghymru i ysgolion cynradd yng Nghymru. Esblygodd y gwersi a ddysgwyd a'r perthnasoedd a ffurfiwyd yn gynllun **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** sydd, yn 2025, bellach yn gweithio gyda phymtheg o dyfwyr bach i gyflenwi amrywiaeth o lysiau organig i ysgolion cynradd ar draws deuddeg Awdurdod Lleol yng Nghymru. Mae'n gyflawniad aruthrol.

Dysgwyd llawer o'r gwersi allweddol pan nad oedd pethau'n mynd yn unol â'r cynllun. Yng ngeiriau un cyfanwerthwr a oedd yn rhan o'r cynllun

***"Peidiwch ag aros am berffeithrwydd. Rhowch gynnig ar bethau ac fe synnech chi beth sy'n bosibl.'***

Mae'r adroddiad hwn yn edrych yn ôl dros y blynyddoedd 2023-2025 i ddangos beth ddigwyddodd; y manteision a'r costau; y bobl a'r grwpiau a gymerodd ran a'r rolau allweddol a chwaraewyd ganddynt. Mae hefyd yn edrych ar y gwersi anodd a ddysgwyd, i ddangos y prosesau sy'n gwneud caffael llysiau'n lleol yn realiti. Daw'r adroddiad i ben gyda gweledigaeth ac argymhellion ar gyfer y dyfodol.


Mae'r ehangu wedi bod yn bosibl oherwydd gwaith caled pawb, yn enwedig y tyfwyr; cymorth mewn nwyddau gan Synnwyr Bwyd Cymru, Castell Howell a Garddwriaeth Cyswllt Ffermio - Lantra, Cronfa Cefnogi Cwmnïau Lleol/ Economi Sylfaenol Llywodraeth Cymru, cyllid Pontio'r Bwlch a chyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin drwy Bartneriaeth Bwyd Sir Fynwy. Cafwyd cydweithio buddiol hefyd gyda phrosiectau eraill a ariannwyd gan y gronfa Cefnogi Cwmnïau Lleol fel DTA Cymru a BIC Innovation a hefyd y Partneriaethau Bwyd Lleol a fu'n rhan o'r cynllun a chynlluniau peilot eraill Pontio'r Bwlch.

[4] Synnwyr Bwyd Cymru (2023) Cynllun Peilot Courgettes



# DIWEDDARIAD AR Y CYD-DESTUN POLISI

Mae'r cyd-destun polisi a'r rhesymeg dros gynyddu faint o lysiau a dyfir yng Nghymru sy'n cael eu defnyddio mewn ysgolion cynradd yng Nghymru yn parhau'n debyg i'r hyn a amlinellwyd yn adroddiad y Cynllun Peilot Courgettes[4] a gyhoeddwyd yn 2023 ond bu rhai newidiadau sy'n werth eu hamlinellu




## Cost gynyddol deiet iach

Mae deiet iach, y dylai 40% ohono yn ôl pwysau fod yn llysiau a ffrwythau, yn parhau i fod yn llai fforddiadwy na deiet nad yw'n iach. Yn ôl y data diweddaraf, bellach mae'n rhaid i aelwydydd â'r incwm isaf sydd â phlant yn y DU wario 70%[5] o'u hincwm gwario ar fwyd er mwyn gallu fforddio deiet iach a argymhellir gan y llywodraeth. Gwyddom fod 28% o blant Cymru yn byw mewn tlodi cymharol[6] ac felly'n debygol o fod yn cael trafferth fforddio bwyta digon o ffrwythau a llysiau ac yn 2023, oherwydd costau byw cynyddol, roedd y swm a brynwyd gan gartrefi yn y DU wedi gostwng i'w lefel isaf ers 50 mlynedd[7].

5 Food Foundation (2025) The Broken Plate Report 2025
6 Llywodraeth Cymru (2030) Tlodi incwm cymharol: Ebrill 2021 i Fawrth 2022
7 The Food Foundation (2023) Cost of living crisis results in lowest vegetable purchases for 50 years

## Gofalu am genedlaethau'r dyfodol



Mae Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[8] yn parhau i osod cyd-destun hwylusol cyffredinol sydd i'w groesawu ond mae hyn wedi'i atgyfnerthu ymhellach gan strategaeth Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer 2023-2030 'Cymru Can'[9] sy'n rhoi ffocws ar fwyd. Mae'r adroddiad yn dweud "Mae ar Gymru angen cynllun gwydn, hirdymor sy'n symud effaith amaethyddol tuag at gael canlyniad cadarnhaol ar adfer hinsawdd a natur, gan sicrhau dietau diogel, fforddiadwy ac iach i bobl, yn enwedig plant."

O 2024, roedd Prydau Ysgol Am Ddim[10] ar gael i holl blant ysgolion cynradd Cymru, gan roi cyfle gwych i blant gael pryd maethlon wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru ar yr un pryd â buddsoddi yn natblygiad ffermio cynaliadwy lleol a chadwyni cyflenwi bwyd. Mae Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) 2013[11] sy'n rheoli'r dewis o fwyd a diod sydd ar gael i blant a phobl ifanc mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd. Mae'n bosibl y bydd y newidiadau arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol weini dau ddogn o lysiau fesul pryd, yn hytrach nag un, fel mater o drefn.



[8] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

[9] Strategaeth Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol 'Cymru Can' (2023-2030)

[10] Llywodraeth Cymru (2024) Prydau Ysgol am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd

[11] Deddfwriaeth.gov.uk (2013) Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) 2013



## Rôl y sector cyhoeddus i arwain drwy esiampl




Mae adolygiad annibynnol o brosesau caffael bwyd yn y sector cyhoeddus[12] a gynhaliwyd yn Lloegr wedi galw am sicrhau bod safonau amgylcheddol a maeth gorfodol yn cwmpasu'r sector cyhoeddus cyfan, a bod y sector yn cael ei fonitro'n briodol i sicrhau cydymffurfiaeth. Mae hefyd wedi galw am gynnydd mewn cyllid ar gyfer bwyd ysgol, a chynnwys mwy o ffermwyr a busnesau bach a chanolig er mwyn eu galluogi i fanteisio ar gyfleoedd i gyflenwi bwyd a diod i'r sector cyhoeddus. Ar ben hyn oll mae prif bleidiau gwleidyddol y DU wedi gwneud ymrwymiadau i brynu bwyd o ffynonellau lleol a chynaliadwy, gan gynnwys y blaid Lafur, a nododd yn ei maniffesto[13] ei bwriad i sicrhau bod o leiaf 50% o'r bwyd a brynir ar gyfer y sector cyhoeddus yn 'lleol neu'n gynaliadwy'.

Mae Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023[2] bellach yn gyfraith. Rhaid i awdurdod contractio geisio gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ei ardal drwy gynnal ymarferion caffael cyhoeddus mewn ffordd sy'n gymdeithasol gyfrifol. Mae contractau bellach yn cael eu dyfarnu ar sail meini prawf sy'n cynnwys elfen yn ymwneud â gwerth cymdeithasol ac mae hyn fel arfer yn ffurfio 5-15% o'r sgôr ar gyfer tendr, gydag ansawdd a phris yn dal i gynrychioli'r elfen sy'n sgorio uchaf. Serch hynny, mae gwerth cymdeithasol bellach yn dylanwadu ar brosesau tendro yng Nghymru. Mae'r ffordd y caiff gwerth cymdeithasol ei ddiffinio gan Awdurdodau Lleol ar hyn o bryd yn eithaf eang ac mae cyflogaeth leol a theg yn ffactor allweddol, er y gallai unrhyw agwedd sy'n helpu i gyflawni amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gyfrif tuag at sgôr gwerth cymdeithasol, gan gynnwys gweithgareddau addysgol a chynnydd mewn bioamrywiaeth.

[12] Independent Review into public sector food procurement (2024)
[13] Sustain (2024) Maniffestos Gwleidyddol 2024

## Lliniaru newid hinsawdd ac addasu iddo



Mae effeithiau newid hinsawdd yn parhau i gael eu teimlo ledled y byd gyda DEFRA'n datgan yn ei adroddiad ar Ddiogelwch Bwyd a gyhoeddwyd yn 2024[14] bod y DU, yn arwyddocaol, yn dibynnu i raddau helaeth ar ychydig o wledydd allweddol ar gyfer ei mewnforion ffrwythau a llysiau ffres, ac mae hynny'n creu risgiau i gyflenwadau rhanbarthol megis tywydd eithafol sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i geisio cyflawni allyriadau carbon Sero Net erbyn 2050[14]. O'r herwydd, anogir pob corff cyhoeddus i adrodd yn flynyddol ar allyriadau carbon. Mae data gan Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru[15] yn 2023 yn dangos bod ôl troed carbon y 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru tua 1,374 kt $CO_2$e. Y Gadwyn Gyflenwi (67%) oedd y prif gyfrannwr at hynny. Yr ôl yr adroddiad diweddaraf ar gyllideb garbon y DU gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd[16], o ran y cynnydd ar leihau allyriadau, mae'n rhaid i amaethyddiaeth leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr 39% erbyn 2040 er mwyn bodloni ymrwymiadau newid hinsawdd sy'n gyfreithiol rwymol. Dylid ystyried o ddifrif unrhyw beth y gall Awdurdodau Lleol ac amaethyddiaeth ei wneud i leihau ôl troed carbon.



[14] Defra (2024) United Kingdom Food Security Report 2024: Theme 2: UK Food Supply Sources

[15] Llywodraeth Cymru (2021) Targedau newid hinsawdd a chyllidebau carbon

[16] Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru (2024) Canllaw ar gyfer Adrodd ar Garbon Sero Net: Allyriadau Carbon Sector Cyhoeddus Cymru 2023

[17] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd (2025) Y Seithfed Gyllideb Garbon



## Gwrthdroi'r golled mewn bioamrywiaeth





Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016[18] yn anelu at wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth. Ymhlith pethau eraill, gosododd ddyletswydd uwch ar awdurdodau cyhoeddus mewn perthynas â bioamrywiaeth a chadernid ecosystemau. Dengys data a ryddhawyd yn 2025 gan Archwilio Cymru[19] fod bywyd gwyllt yng Nghymru wedi lleihau 20% ar gyfartaledd rhwng 1994 a 2023. Ac roedd oddeutu 1 o bob 6 rhywogaeth yng Nghymru mewn perygl o ddiflannu yn 2023. Canfu Archwilio Cymru hefyd nad oedd hanner yr awdurdodau cyhoeddus wedi cydymffurfio â'r gofyniad i baratoi a chyhoeddi cynllun bioamrywiaeth ac nad oedd eu chwarter wedi cydymffurfio o gwbl â'r gofyniad i gyhoeddi adroddiad bioamrywiaeth ac, yn gyffredinol, nad yw'r argyfwng natur wedi cael blaenoriaeth ddigon uchel gan Awdurdodau Lleol.

Yn ystod haf 2025 disgwylir i Fil bioamrywiaeth newydd gael ei gyflwyno i'r Senedd[20] a fydd yn sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol i Gymru ac yn cyflwyno dyletswydd a thargedau statudol i ddiogelu ac adfer bioamrywiaeth. Bydd y corff yn goruchwylio cydymffurfiaeth awdurdodau cyhoeddus Cymru â chyfraith amgylcheddol, gan olygu y bydd yn dod yn bwysicach i Awdurdodau Lleol allu profi gwelliannau amgylcheddol ac effaith gadarnhaol ar fioamrywiaeth. Mae prynu cynnyrch ardystiedig organig yn ffordd sy'n seiliedig ar dystiolaeth o warantu a mesur enillion o ran bioamrywiaeth.

18 Legislation.gov.uk (2016) Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

19 Archwilio Cymru (2025) Nid yw'r argyfwng natur wedi bod yn flaenoriaeth ddigon uchel

20 Llywodraeth Cymru (2024) Sicrhau Dyfodol Cynaliadwy Egwyddorion Amgylcheddol, Llywodraethu a thargedau Bioamrywiaeth



## Dirywiad ac atgyfodiad garddwriaeth yng Nghymru





Mae garddwriaeth wedi'i enwi'n faes datblygu allweddol ar gyfer amaethyddiaeth gan Lywodraeth Cymru. Mewn datganiad ysgrifenedig[1] gan Huw Irranca-Davies AS, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig a Rebecca Evans AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, dywedir "*Ein nod yn y pen draw yw meithrin sector garddwriaeth fwy a bywiog trwy ddull cytbwys sy'n integreiddio cynllunio gyda mentrau cefnogol eraill, gan ysgogi twf cynaliadwy ac arloesedd yn y diwydiant.*"


Dywedodd Prif Weinidog Cymru yn y Senedd[21] ym mis Rhagfyr 2024 "*Prosiect **Llysiau o Gymru ar gyfer ysgolion Cymru**, mae hwnnw'n rhywbeth y dylem ni fod yn falch ohono ar draws chwe awdurdod lleol yng Nghymru. Hyfrydwch hwnnw yw ei fod yn cysylltu'r cymunedau amaethyddol lleol a'r rhai sy'n tyfu yn lleol. Mae pethau wedi gwella, ond mae yna ffordd bell i fynd eto.*"

Ym mis Ionawr 2023 dangosodd yr Adroddiad ar y Cynllun Peilot Courgettes[4] fod nifer yr hectarau ble y tyfwyd llysiau a salad yn yr awyr agored yng Nghymru ar ei lefel isaf erioed. Ers hynny fodd bynnag, ac efallai oherwydd cefnogaeth Llywodraeth Cymru i fentrau fel Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion, Garddwriaeth Cyswllt Ffermio ac eraill, yn ogystal â Grantiau Datblygu Garddwriaeth, ceir arwyddion bod y duedd hon yn cael ei gwrthdroi a gwelwyd cynnydd o 20% dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Er ei fod yn dechrau o lefel is a bod y cynnydd yn fach, mae'r duedd hon yn dra gwahanol i'r hyn sy'n digwydd yn y DU yn gyffredinol lle rydym yn parhau i weld gostyngiad yn arwynebedd y tir sy'n cael ei neilltuo i lysiau maes, sef gostyngiad o 10% o 2021-2023.

[21] Senedd.tv (Rhagfyr 3ydd 2024) Eluned Morgan Prif Weinidog Cymru yn y Cyfarfod Llawn


## Arwynebedd tir ble y tyfir llysiau yng Nghymru 2024[22] o ran hectarau

| Blwyddyn | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Hectarau | 499 | 325 | ddim ar gael | 298 | 288 | 319 | 344 |




## Arwynebedd tir ble y tyfir llysiau yn y DU
## Ystadegau Garddwriaeth Defra 2023 wedi'u diweddaru 2024

| Blwyddyn | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Hectarau | 115,938 | 114,513 | 118,131 | 112,220 | 107,155 | 100,067 | n/a |




[22] Llywodraeth Cymru (2024) Arolwg o Amaethyddiaeth a Garddwriaeth



Mae nifer y cynhyrchwyr ffrwythau a llysiau yng Nghymru hefyd wedi cynyddu'n aruthrol, sef cynnydd o **146%** dros y pedair blynedd diwethaf, o **204 yn 2020**[23] i **502 yn 2024**[24].

Gallai gwaith pellach gan Lywodraeth Cymru i gefnogi Garddwriaeth Cymru drwy grŵp Cynghrair Garddwriaeth Cymru, yn ogystal â gwaith gweithgor cynllunio Garddwriaeth Cymru i fynd i'r afael â rhwystrau'n ymwneud â pholisi cynllunio a nodir yn yr adroddiad ar Rwystrau sy'n Atal Datblygiadau Garddwriaethol Bychain yng Nghymru[25] helpu'r sector i dyfu yn y dyfodol. Mae cyfle gwirioneddol hefyd i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, drwy'r haenau Dewisol a Chydweithredol, gefnogi datblygiad garddwriaeth ymhellach a meithrin gwytnwch.



Mewn adroddiad gan Yr Athro Tim Lang a gyhoeddwyd yn 2025[26] ar gyfer y Pwyllgor Parodrwydd Cenedlaethol, yn dwyn y teitl 'Just in Case: 7 steps to narrow the UK civil food resilience' mae pennod gyfan ar y gwaith sy'n cael ei wneud yng Nghymru ar arddwriaeth, cadwyni cyflenwi, Partneriaethau Bwyd Cynaliadwy a chymdeithas sifil sy'n ei amlygu fel arfer da wrth feithrin gwydnwch bwyd, sef 'Lessons for resilience from the decline and renaissance of horticulture in Wales.' Un o'r agweddau y mae'n tynnu sylw ato yw'r cydweithio gwych sy'n digwydd yng Nghymru ym maes garddwriaeth.

[23] Arolwg gwaelodlin Tyfu Cymru

[24] Garddwriaeth Cyswllt Ffermio Lantra yn ôl cronfa ddata 2024, gohebiaeth uniongyrchol heb ei gyhoeddi hyd yn hyn.

[25] Bwyd a Diod Cymru (2024) Rhwystrau sy'n atal datblygiadau garddwriaethol bychain yng Nghymru

[26] Tim Lang (2025) Just in Case Report: narrowing the civil food resilence gap

# STRWYTHUR LLYSIAU O GYMRU AR GYFER YSGOLION



Mae **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** yn cael ei gydlynu gan Synnwyr Bwyd Cymru mewn partneriaeth â thyfwyr, cwmni Castell Howell (y cyfanwerthwr) a Garddwriaeth Cyswllt Ffermio (Lantra). Mae'n gweithio'n agos gydag Awdurdodau Lleol a Phartneriaethau Bwyd Cynaliadwy i ddatblygu cyflenwad o lysiau sy'n gweithio i bawb. Mae'n seiliedig ar ddatblygu perthnasoedd ar draws y gadwyn gyflenwi ac ehangu'r cyflenwad a'r galw lleol ar yr un pryd.

Wrth ei wraidd mae'r gred y dylai risg gael ei rhannu ar draws y gadwyn gyflenwi. Mae tyfwyr lleol a'u hanghenion yn greiddiol i'r cynllun, ac fel y dywedodd un tyfwr,


***'Rwy'n teimlo fy mod i'n cael fy hyrwyddo gan y cynllun Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion.'***

Dywedodd rheolwr arlwyo o Awdurdod Lleol hefyd

***'Mae'n braf cael cysylltiad personol â'r tyfwyr gan mai nhw yw'r rhan o'r prosiect sy'n gweithio galetaf. Mae angen rhoi cydnabyddiaeth iddyn nhw ac maen nhw'n chwarae rhan enfawr yn y prosiect. Mae'n braf i arlwywyr ac Awdurdodau Lleol weld wynebau'r bobl ar y rheng flaen.'***








Cyfarfu tyfwyr bob tair wythnos ac mae grŵp llywio o randdeiliaid allweddol, gan gynnwys tyfwyr, yn cyfarfod bob mis.



# BETH YW'R CAMAU YMARFEROL SYDD ANGEN EU CYMRYD I WNEUD I HYN DDIGWYDD?

I wneud i hyn ddigwydd, mae angen cyd-destun polisi galluogol arnom yng Nghymru, a chydweithio ar draws y gadwyn gyflenwi, gyda'r ffermwyr a'r tyfwyr wrth wraidd hynny.

## Cael y broses yn iawn: rysáit ar gyfer llwyddiant

- Dechreuwch yn fach
- Casglwch y bobl gywir ynghyd a dechreuwch adeiladu perthnasoedd
- Gwnewch yn siŵr bod pawb yn cytuno bod rhannu risg ar draws y gadwyn gyflenwi yn allweddol, ac yn ymarferol, mae hyn yn golygu cytuno i dalu pris teg i dyfwyr
- Alinio amserlenni cynllunio arlwywyr â'r tymor tyfu
- Tyfwch yr hyn y mae caffaelwyr eisiau ei brynu a symudwch ymlaen o'r fan honno gan eu cefnogi i gaffael yr hyn y gellir ei dyfu'n broffidiol
- Ymchwiliwch a gwerthuswch wrth i chi fynd yn eich blaen gan ddysgu'n barhaus





# MANTEISION CYFLENWADAU ORGANIG LLEOL



Mae manteision cynyddu cynhyrchiant organig lleol, cynaliadwy o lysiau yng Nghymru ar yr un pryd â disodli cynnyrch wedi'i fewnforio sy'n aml wedi'i rewi a chanddo rinweddau cynaliadwyedd anhysbys, sydd fel arfer yn cael eu rhoi mewn prydau i blant yng Nghymru, yn sylweddol ac yn fesuradwy.

## Pam cynnyrch organig ac nid dim ond cynnyrch lleol?

Er ei fod bob amser yn buddsoddi mewn systemau cyflenwi lleol a ffermwyr, nid yw bwyd a dyfir yn lleol bob amser yn arwain at fanteision cadarnhaol i'r amgylchedd ac i iechyd.

### Ôl troed carbon is o gymharu â chynnyrch nad yw'n organig

Mae dulliau cynhyrchu sy'n defnyddio gwrtaith artiffisial sy'n cael ei fewnforio a phlaladdwyr synthetig yn defnyddio llawer iawn o ynni ac felly mae ganddynt ôl troed carbon uchel. Yn yr astudiaeth achos o frocoli isod, mae ôl troed carbon cynnyrch ffres sy'n cael ei gynhyrchu'n ddiwydiannol yn Lloegr dair gwaith yn uwch nag ôl troed carbon cynnyrch ffres organig Cymreig, yn bennaf oherwydd gwrtaith sy'n deillio o danwydd ffosil, yn enwedig amoniwm nitrad, sy'n cynhyrchu allyriadau $N_2O$ sylweddol.

### Lefelau bioamrywiaeth uwch a llai o weddillion plaladdwyr

Mae dulliau cynhyrchu ble y defnyddir plaladdwyr yn aml yn lleihau bioamrywiaeth[27] yn yr ardal gyfagos hefyd oherwydd **defnydd heb ei dargedu** ac mae ganddo'r potensial i lygru afonydd.

[27] Rhymes, J., Stockdale, E., Napier, B., Williamson, J., Morton, D., Dearlove, E., Staley, J., Young, H., Thomson, A., Evans, C. (2023) The future of UK vegetable production – Technical Report

## Gweddillion Plaladdwyr

Yn aml mae gweddillion plaladdwyr i'w cael ar lysiau sy'n cael eu tyfu drwy'r mathau hyn o systemau cynhyrchu. Yn ôl adolygiad diweddar o effeithiau plaladdwyr ar iechyd dynol a'r amgylchedd[28] mae effeithiau acíwt a chronig plaladdwyr artiffisial ar iechyd a dod i gysylltiad â nhw drwy ddeiet yn bryderon iechyd cyhoeddus difrifol, yn enwedig mewn gwledydd sy'n datblygu. Maent yn amlinellu bod plaladdwyr yn cynhyrchu gwahanol fathau o wenwyndra, er enghraifft, niwrowenwyndra, mwtagenedd, carsinogenigrwydd, teratogenedd, ac ymyriad ag endocrinau.

Ac yn ôl Adroddiad Sefydliad Iechyd y Byd a Rhaglen Amgylcheddol y Cenhedloedd Unedig[29] a gyhoeddwyd yn 2020, ledled y byd, mae tair miliwn o bobl yn cael eu gwenwyno ac mae 200,000 yn marw oherwydd amlygiad i blaladdwyr, yn bennaf mewn gwledydd sy'n datblygu. Felly mae lleihau'r defnydd o blaladdwyr wrth gynhyrchu llysiau yma yn y DU a thramor yn debygol o fod o fudd i'r amgylchedd ac i iechyd pobl.

Gan edrych ar frocoli fel enghraifft, canfu adroddiad diweddaraf Defra ar weddillion plaladdwyr mewn bwyd[30], a gyhoeddwyd yn 2025, 10 o weddillion plaladdwyr gwahanol yn y 33 o samplau a brofwyd (er nad oedd yr un ohonynt yn uwch na'r Lefel Gweddillion Uchaf y mae Defra yn ystyried eu bod yn anniogel i ddefnyddwyr):

Acetamiprid, azoxystrobin, chlorate, clopyralid, difenoconazole, Fosetyl-Al, Fosetyl-Al, fluopicolide, metalaxyl, propamocarb and Spirotetramat.

Roedd pob un o'r samplau o frocoli wedi'u rhewi, o'r DU a'r UE, yn cynnwys gweddillion plaladdwyr, ni chanfuwyd unrhyw weddillion yn yr un sampl ffres o'r DU a brofwyd ond roedd ychydig llai na hanner samplau ffres yr UE yn cynnwys gweddillion plaladdwyr.

Mae disodli brocoli wedi'i rewi â brocoli organig ffres Cymreig yn debygol o leihau cysylltiad ffermwyr â phlaladdwyr a lleihau'r gweddillion plaladdwyr sy'n cael eu bwyta gan bobl.



[28] Md Faruque Ahmad, Fakhruddin Ali Ahmad, Abdulrahman A. Alsayegh, Md. Zeyaullah, Abdullah M. AlShahrani, Khursheed Muzammil, Abdullah Ali Saati, Shadma Wahab, Ehab Y. Elbendary, Nahla Kambal, Mohamed H. Abdelrahman, Sohail Hussain (2024) Pesticides impacts on human health and the environment with their mechanisms of action and possible countermeasures, Heliyon, Cyfrol 10, Rhifyn 7.

[29] W. Boedeker, M. Watts, P. Clausing, E. Marquez (2020) The global distribution of acute unintentional pesticide poisoning: estimations based on a systematic review. BMC Publ. Health, 20 (1) (2020), tud. 1-19.

[30] Defra (2025) Pesticide Residues in Food

## Gwirio dulliau cynhyrchu a chanlyniadau








Os ydym am i gynhyrchiant lleol wella'r amgylchedd hefyd yng Nghymru, mae angen rhyw fath o wiriad o ddulliau cynhyrchu neu ganlyniadau amgylcheddol a gyflawnir ar ffermydd - ar hyn o bryd ffordd bragmataidd o wneud hyn yw drwy ardystiad organig, ffordd arall efallai fyddai cynnal archwiliad cynaliadwyedd cynhwysfawr ar ffermydd fel y Metrig Fferm Fyd-eang[31].

Mae ffermio organig[32] yn dilyn set o safonau, y mae'n rhaid iddynt gydymffurfio'n gyfreithiol â rheoliadau'r UE, i sicrhau bod iechyd y pridd, ecosystemau, anifeiliaid a phobl yn cael eu cynnal. Yn ymarferol, o ran cynhyrchu llysiau, mae hyn yn golygu dim gwrtaith artiffisial, dim plaladdwyr (ffactorau allweddol sy'n arwain at golli bioamrywiaeth) a dim elfennau wedi'u haddasu'n enetig.

Mantais ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchwyr fynd drwy broses ardystio organig yw, heb orfod treulio amser yn casglu metrigau cynaliadwyedd, bod llawer o ymchwil wedi'i wneud i rai manteision cynaliadwyedd, a'r rheini wedi'u dogfennu'n dda a gellir eu priodoli i gynnyrch organig. Mae Cool Food Pro[33] yn gyfrifiannell arbed carbon sydd wedi'i chynllunio ar gyfer y sector arlwyo i gyfrifo effaith amgylcheddol. Fe'i defnyddiwyd yma i gyfrifo'r carbon a gaiff ei arbed pan fydd cynnyrch organig lleol yn disodli cynnyrch anorganig byd-eang Ewropeaidd:

## Mesur manteision llysiau organig Cymreig

Amcangyfrifir bod yr 14 tunnell o lysiau organig a gynhyrchwyd ar gyfer y Cynllun **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** yn 2024, a oedd yn ategu cynnyrch anorganig o bob cwr o'r byd, wedi gwneud y canlynol:

### 1. Carbon

**Arbed o leiaf 3 tunnell o $CO_2$ e.**

Gallai hyn fod yn fwy os byddwch yn ystyried y llysiau ffres wnaeth ddisodli'r rhai sydd wedi'u rhewi (gan gynhyrchu lefelau uchel o garbon oherwydd yr ynni sydd ei angen i rewi a chludo bwyd wedi'i rewi), fel brocoli a moron, fel yr amlygwyd gan Asesiad Cylch Oes a gynhaliwyd ar gyfer y prosiect. Roedd hyn yn dangos ei bod yn debygol bod cyfanswm carbon brocoli organig Cymreig 66-83% yn is o gymharu â chyflenwad arferol.

Nid yw arbed carbon yn gyfystyr â Sero Net a gellid gwneud mwy i ddatgarboneiddio cadwyni cyflenwi a chynhyrchiant garddwriaethol fel yr awgrymiadau atodol a gynigir gan Clo Carbon Cymru[34].

[31] The Global Farm Metric (Fel yn 2025)
[32] Cymdeithas y Pridd (Fel yn 2025) What is organic?
[33] Cyfrifiannell Cool Food Pro (Fel yn 2025)
[34] Clo Carbon Cymru (2024) Tynnu Carbon Deuocsid Llwybr Teg ar gyfer CDR yng Nghymru

## Brocoli wedi'i rewi o'i gymharu â brocoli organig ffres

Fel rhan o'r teulu o brosiectau a ariannwyd gan y gronfa Cefnogi Cwmnïau Lleol, gweithiodd BIC Innovation gyda Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion drwy drefnu astudiaeth asesiad cylch bywyd gan Brifysgol Abertawe i gymharu olion traed carbon brocoli a gynhyrchir yn organig yng Nghymru, y DU, â rhai o lwybrau cynhyrchu masnachol ar raddfa fwy. Canfuwyd bod disgwyl i'r carbon a gynhyrchir gan frocoli organig Cymreig fod 66-83% yn is o gymharu â'r sefyllfa orau a'r sefyllfa waethaf.




### Canlyniadau – sefylfaoedd craidd

Mae disgwyl i'r carbon a gynhyrchir gan frocoli organig Cymreig fod 66-83% yn is o gymharu â'r sefyllfa orau a'r sefyllfa waethaf (56-75% gan gynnwys amcangifrifon $CO_2$).

**Mae effeithiau trafnidiaeth 87-97% yn is.**

**Mae effeithiau cynhyrchu +57% yn is o ran carbon o'i gymharu â brocoli diwydiannol.**




Darparodd hwn ddarlun cychwynnol o ôl troed carbon ac mae'n ganllaw ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol mewn arferion newid hinsawdd sy'n ymwneud â chynhyrchu brocoli. Mae'n defnyddio amcangyfrifon a rhagdybiaethau niferus, nid oes adolygiad beirniadol wedi'i gynnal ohono, ac nid yw'n cynnwys adroddiadau cynhwysfawr. Nid yw'r canfyddiadau wedi'u bwriadu i'w defnyddio i wneud penderfyniadau ar raddfa fawr ond yn hytrach fel cam cychwynnol tuag at asesiadau mwy cynhwysfawr.



## 2. Bioamrywiaeth

Cynnydd o 35% mewn bioamrywiaeth (yn seiliedig ar fesur nifer yr adar mewn caeau)

## 3. Dim Gweddillion Plaladdwyr

Dim gweddillion plaladdwyr synthetig ar lysiau a fwyteir gan blant

## 4. Gwydnwch

Buddsoddi £34,333 yn y maes cynhyrchu yng Nghymru i ddatblygu capasiti cyflenwi yn y dyfodol.

| | |
|---|---|
| Incwm cyfartalog i dyfwyr fesul tunnell | £ 2,452.39 |
| Incwm cyfartalog i dyfwyr fesul hectar | £ 44,143.00 |

Cefnogwyd wyth busnes cynhyrchu yng Nghymru i ehangu cynhyrchiant a gwnaed cysylltiadau ar draws y gadwyn gyflenwi i feithrin perthnasoedd ar gyfer y dyfodol.



### *'... mae hynny'n golygu bod £34,000 wedi aros gyda Chyfanwerthwr Cymru'*

Cyfanwerthwr

Yn ôl y ddogfen Farmer Focussed routes[35] to markets evaluation a gyhoeddwyd gan y New Economic Foundation, gan ddefnyddio tystiolaeth gan Growing Communities, sef model ychydig yn wahanol gyda gwerthiannau uniongyrchol yn bennaf ac nid gwerthiannau i ysgolion, **am bob £1 a wariwyd ar gynnyrch, cynhyrchwyd £3.70 mewn budd cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd**.
Gan dybio bod y lluosydd hwn yn arwydd o effaith Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion, byddai £34,333 yn rhoi amcangyfrif o £127,034 o enillion. Syniad bras yw hwn ac mae angen mwy o waith dadansoddi. Efallai y bydd offeryn Mynegai Bwyd Cymru yn ddefnyddiol yn y dyfodol i brofi enillion economaidd lleol.


### £34,333 = amcangyfrif o £127,034 o fudd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol




[35] NEF (2020) Farmer Focussed routes to markets evaluation

## 5. Mwy o swyddi ar ffermydd





Nifer y swyddi yng Nghymru a gefnogir yn uniongyrchol ar ffermydd gan 14 tunnell o gynnyrch Cymreig (gweler yr adroddiad technegol)=

### Cyfanswm o 1.2 o swyddi CALl/ 0.08 o swyddi CALl y dunnell fetrig

(yn amrywio gyda'r gymysgedd o lysiau a dyfir/brynir)

**1.5 CALl fesul hectar** (cyfartaledd o 18 t/ha).

Mae hyn yn is na'r ffigur 3.2 a ddefnyddiwyd yn y gwaith modelu blaenorol[4], mae'n seiliedig ar ddata'r cynllun Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion hyd yn hyn ac mae'n debygol o fod yn adlewyrchiad mwy realistig o'r gymysgedd o weithgaredd cynhyrchu garddwriaeth sydd ei angen yng Nghymru o ran cyflenwadau gardd marchnad a maes ar gyfer prosesau caffael. Cyfartaledd llafur fferm CALl fesul hectar yng Nghymru (cyfanswm o 1,775,205 hectar o dir amaethyddol wedi'i rannu â 49,538 o gyfanswm y llafur) yw 0.03 felly mae 1.5 yn dal i fod dros hanner can gwaith yn fwy o lafur na'r cyfartaledd ar gyfer amaethyddiaeth yng Nghymru.

## 6. Cynyddu incwm Ffermwyr yng Nghymru

IYn gyffredinol mae incwm ffermwyr yn isel. Er bod ganddynt gyfalaf yn aml, na ellir ei werthu os ydych am barhau i ffermio, mae incwm blynyddol cyfartalog ffermwyr yng Nghymru tua £19,847 (o ddata Incymau Fferm[36] - gweler yr adroddiad technegol). Yr incwm net canolrifol yng Nghymru yw £29,097, felly mae gan ffermwyr incwm cymharol isel, hyd yn oed yn fwy felly pan ystyrir yr oriau a weithir (yn aml o leiaf ddwbl yr wythnos waith gyfartalog).

Mae ffermwyr yn ennill tua 73% o'r incwm net canolrifol, ac er nad yw hyn o reidrwydd yn rhoi ffermwyr yn y grŵp tlodi cymharol (60% o incwm canolrifol y cartref) nid ydynt ymhell o hynny. Drwy gynyddu incwm ffermwyr drwy arallgyfeirio i gynhyrchu llysiau, ceir potensial i gynyddu incwm ffermydd yn gyffredinol ar yr un pryd â chynyddu swyddi ar ffermydd a chefnogi manteision eraill cynhyrchu a chyflenwi lleol a chynaliadwy.

Er hynny, i fod yn glir, yn aml mae gan fusnesau cynhyrchu llysiau incwm net isel hefyd oherwydd bod costau llafur a chostau seilwaith a sefydlu yn uchel (e.e. ar gyfer gardd farchnad 1.2 hectar, amcangyfrifir y bydd y costau sefydlu yn £75,120-£152,600[37]).

[36] Llywodraeth Cymru (2025) Incymau fferm: Ebrill 2023 i Fawrth 2024

[37] New Entrants to agrocecological farming (2020) Landworkers' Alliance



Fodd bynnag, gyda'r cymorth cywir, drwy ychwanegu garddwriaeth at fusnes fferm ceir potensial i gynyddu incwm y fferm a chyflogaeth yn sylweddol.



Mae incwm ar draws y sector bwyd yn isel yn gyffredinol a dengys data o 2023[38] fod 25.8% o aelwydydd â gweithiwr yn y sector bwyd wedi profi diffyg diogeled bwyd. Byddai holl weithwyr y sector bwyd, gan gynnwys ffermwyr a thyfwyr, yn elwa o dderbyn y Cyflog Byw Gwirioneddol Cenedlaethol (sy'n £12.60 yr awr ar hyn o bryd).

## Cynnyrch lleol ffres a maethlon

Trefnodd Castell Howell i lefelau maeth gael eu profi mewn tair sampl o foron, dwy sampl gan dyfwyr a oedd yn rhan o'r cynllun ac un o gadwyn gyflenwi arferol y cwmni ac mae'r canlyniadau'n rhoi syniad o lefel y maeth (Gweler Atodiad 2). Nid oedd hon yn astudiaeth gynhwysfawr o bell ffordd a dylid bod trin y canlyniadau'n ofalus ond roedd y ddwy sampl o foron organig a dyfwyd yng Nghymru yn cynnwys lefelau uwch o botasiwm, sy'n helpu i sicrhau pwysedd gwaed iach a gweithrediad y cyhyrau, ac roedd un sampl o Gymru yn cynnwys lefelau sylweddol uwch o fagnesiwm sy'n cyfrannu at iechyd esgyrn a chynhyrchu egni. Byddai'n ddefnyddiol cynnal ymarfer monitro cynnwys maethol mwy cynhwysfawr ac argymhellir y dylid cynllunio i wneud hynny ar gyfer y tymor tyfu nesaf. Mae'n ddrud ond byddai'n werth cael y data ar gyfer y dyfodol.

[38] Gohebiaeth bersonol Llywodraeth Cymru 2025



# CRYNODEB COST A BUDD

## Nid yw llysiau organig bob amser yn ddrutach



O blith deuddeg o lysiau organig a gyflenwyd yn 2024, o gymharu â'r prisiau yr oedd pedwar Awdurdod Lleol gwahanol yn eu talu drwy gyfanwerthwyr gwahanol, roedd **prisiau tri math o lysiau yn gyson ratach: Courgettes, Ysgallddail a Bresych Deiliog (ac weithiau cennin)**. Fodd bynnag, nid yw'r rhain yn llysiau sy'n cael eu prynu'n aml ar gyfer ysgolion. Byddai ychwanegu mwy o'r rhain at fwydlenni ysgol yn lle llysiau eraill, efallai mewn prydau sy'n cynnwys saws, yn arwain at y manteision a ddaw yn sgil cefnogi ffermio organig lleol, heb gynyddu costau.

Mae chwarter llysiau organig Cymru yn gyson ratach na'r prisiau y mae Awdurdodau Lleol yn eu talu fel arfer, ond nid yw ysgolion fel arfer yn prynu'r mathau hynny o lysiau.

## Amrywiad mewn prisiau ar draws Awdurdodau Lleol a chyfanwerthwyr

Pan edrychwch ar yr hyn y mae gwahanol Awdurdodau Lleol fel arfer yn ei dalu am lysiau gan wahanol gyfanwerthwyr a chymharu hynny â'r prisiau organig, mae amrywiaeth mawr. Mae hyn yn rhannol oherwydd yr elw y mae'n rhaid i'r cyfanwerthwr ei wneud sy'n cael ei ddylanwadu gan faint y cyflenwadau a dosbarthiad daearyddol yr ysgolion. Ar gyfartaledd, roedd prisiau tri chyfanwerthwr i Awdurdodau Lleol 12-29% yn rhatach na'r pris organig a dalwyd i dyfwyr am lysiau tebyg.

## Gostyngiad o 25% ar lysiau organig

Talodd Awdurdodau Lleol gyfanswm o £25,665.72 am lysiau organig a gostiodd £34,333.41 i'r cyfanwerthwr mewn gwirionedd (33% yn fwy). Talodd **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** am y 'bwlch' o £8,667.70 i'r cyfanwerthwyr. Ni wnaeth y cyfanwerthwr ychwanegu cost ychwanegol at y llysiau organig er mwyn gwneud elw. Yn ei hanfod, cafodd yr Awdurdodau Lleol ostyngiad o 25% ar y llysiau organig.

**Roedd yr £8,667.70 ychwanegol wedi arwain at:**

- Brynu **14 tunnell** o lysiau gan **8** cynhyrchydd organig Cymreig gan roi incwm o **£34,333** iddynt
- Amcangyfrif o **£127,034** o fudd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol i Gymru
- Mwy o wydnwch o ran y cyflenwad
- Arbed **3 tunnell** o $CO_2$
- sicrhau cynnydd o **35%** mewn bioamrywiaeth
- **1.2 o swyddi CALl** ar ffermydd
- Llai o ddibyniaeth ar fewnforion o wledydd sydd mewn perygl o ddioddef yn sgil effeithiau newid hinsawdd

Mae hyn ar yr un pryd â darparu cynnyrch organig i blant, sydd wedi'i dyfu yng Nghymru a chryfhau eu cysylltiadau ag o ble y daw eu bwyd.

Mae'r 33% ychwanegol ar gyfer llysiau organig yn cynrychioli'r gost ychwanegol yn 2024 ond gall hyn newid gydag amser os bydd prisiau llysiau sy'n cael eu mewnforio'n cynyddu, er enghraifft oherwydd newid hinsawdd a newidiadau gwleidyddol/ansefydlogrwydd, er enghraifft fel y gwelwyd pan oedd yr argyfwng costau byw yn ei anterth yn 2023. Gall costau cynhyrchu llysiau organig yng Nghymru ostwng hefyd gyda'r posibilrwydd o fwy o fuddsoddiad mewn seilwaith a graddfa, er bod y brif agwedd ar gynhyrchu organig yn ymwneud â llafur sy'n galluogi'r enillion amgylcheddol a bioamrywiaeth, ac mae hyn yn annhebygol o newid yn sylweddol. Bydd y bwlch o ran pris yn parhau i gael ei asesu.

I ddangos effaith y bwlch yn y pris, mae'n ddefnyddiol ystyried cyfres o sefyllfaoedd, yn seiliedig ar y dystiolaeth rydym wedi'i chasglu hyd yma. Faint y byddai'n costio i gynyddu'r nifer o lysiau organig mewn prydau bwyd ysgolion cynradd a pha fanteision byddai'n dod yn sgil hynny?







## Sefyllfa 1 - 3.3c ychwanegol fesul pryd

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi £3.20 fesul disgybl i Awdurdodau Lleol i gyflawni'r ymrwymiad i ddarparu Prydau am Ddim i holl ddisgyblion ysgolion cynradd. O'r amcangyfrif o 31.5 miliwn o brydau sy'n cael eu gweini bob blwyddyn i blant ysgolion cynradd, byddai tua 23.2 miliwn o'r rhain yn cael eu hariannu ar gyfradd o £3.20 gan Lywodraeth Cymru a'r gweddill yn cael eu hariannu drwy'r Awdurdod Lleol sy'n gosod cyfradd fewnol sy'n amrywio, ond yr amcangyfrifir ei bod yn £2.45 fesul disgybl ar gyfartaledd[39]. Mae hyn yn golygu bod y gyllideb sydd ar gael ar gyfartaledd ar gyfer prydau plant ysgolion cynradd yng Nghymru yn £3.00.

Mae tua 76% o gost pryd o fwyd yn cael ei wario ar dalu gorbenion a thua 24% ar y bwyd ar gyfer y pryd[40] sy'n golygu, os cymerwn £3.00 fel y swm ar gyfer y pryd, mai 72c y pryd sy'n cael ei wario ar fwyd mewn gwirionedd. Yn ôl Awdurdodau Lleol sy'n ymwneud â Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion mae tua 10c y pryd yn cael ei wario ar lysiau neu 14% o gost y bwyd.  Mae'r 10c hwn fesul pryd yn darparu'r swm presennol yn y canllawiau maeth o un dogn o lysiau fesul pryd ysgol gynradd, ac mae maint y dogn yn amrywio o 42-70g, gyda rhai Awdurdodau Lleol yn gweini hyd at ddau ddogn y pryd ac yn talu mwy.


Byddai cynnydd o 33% ar y 10c (cost ychwanegol llysiau organig Cymreig) i bob pwrpas yn ychwanegu 3.3c at gost y llysiau ac at y pryd. Felly, pe bai Awdurdod Lleol yn talu 3.3c y pryd yn fwy, tua 1% yn fwy, byddent yn gallu fforddio cefnogi prynu llysiau organig lleol.

Mae Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) 2013 sy'n llywodraethu'r dewis o fwyd a diod sydd ar gael i blant a phobl ifanc mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd. Mae'n bosibl y bydd y newidiadau arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol weini dau ddogn o lysiau fesul pryd, yn hytrach nag un, fel mater o drefn. Os felly, mae'n debygol y bydd Awdurdodau Lleol yn dyblu'r gwariant ar lysiau i tua 20c y pryd ac os felly, cost ychwanegol y llysiau lleol organig fyddai 6.6c y pryd.

[39] Cyfathrebiad personol gyda Llywodraeth Cymru 2025

[40] Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (2023) Deall cost prydau ysgol cynradd am ddim i holl blant ysgolion cynradd

Ond y gwir amdani yw na fydd llysiau Cymreig ar gael drwy gydol y flwyddyn ac mae'n debygol y bydd angen prynu rhai llysiau o'r tu allan i Gymru. Nid yw tymor tyfu Cymru yn para gydol y flwyddyn, a heb ffyrdd o ymestyn y tymor fel prosesu a rhewi (a fydd, gobeithio, yn dod yn fwy posibl wrth i symiau gynyddu), y prif gyfnod cyflenwi yw o fis Gorffennaf i fis Rhagfyr ac o bosibl hyd at fis Mawrth (34 wythnos). Mae ysgolion ar wyliau am ran o'r amser hwnnw (10 wythnos), ond mae rhaglenni Bwyd a Hwyl ar gael sy'n gweini prydau yn ystod gwyliau'r haf er bod niferoedd y plant yn llai, sy'n golygu mai dim ond am hanner y flwyddyn y mae cyflenwad yn bosibl at ei gilydd. Y goblygiad yw pe bai'r cynnydd ym mhris prydau yn 6.6c, mai dim ond am hanner y flwyddyn y byddai angen i hynny gael ei dalu, neu pe bai'r gost yn cael ei lledaenu ar draws y flwyddyn gyfan byddai'n hanner 6.6c am y flwyddyn lawn = 3.3c y pryd.



## Cymhariaeth

### Byddai £3.00 y pryd yn golygu

- Dim cefnogaeth i gynhyrchu llysiau Cymreig
- Dim capasiti i ddatblygu cyflenwad ar gyfer y dyfodol
- Dim gwydnwch yn sgil cadwyni cyflenwi lleol cryfach
- Dim cefnogaeth i swyddi ar ffermydd yng Nghymru
- Dim cynnydd mewn incwm ffermydd yng Nghymru
- Dim gostyngiad mewn carbon
- Dim budd i fioamrywiaeth
- Gweddillion plaladdwyr posibl ar lysiau a dŵr ffo yn y tarddle
- Dibyniaeth ar fewnforion o wledydd sydd mewn perygl o ddioddef yn sgil effeithiau newid hinsawdd

### Byddai £3.033 fesul pryd (3.3c yn ychwanegol) yn golygu

- Cefnogaeth i gynhyrchu llysiau Cymreig (tua £2,500 y dunnell fetrig) a mwy o gapasiti a gwydnwch i sicrhau cyflenwadau yn y dyfodol
- Mwy o swyddi ar ffermydd yng Nghymru (0.08 CALl fesul tunnell fetrig)
- Cynnydd yn incwm cyfartalog ffermydd ledled Cymru
- Mwy o wydnwch i gyflenwad yn y dyfodol
- Arbed carbon yn y gadwyn gyflenwi (0.25 Kg CO2 E fesul kg yn dibynnu ar y llysiau a brynir)
- Cynnydd o 35% yn nifer yr adar mewn caeau
- Dim gweddillion plaladdwyr synthetig
- Llai o ddibyniaeth ar fewnforion o wledydd sydd mewn perygl o ddioddef yn sgil effeithiau newid hinsawdd



## Sefyllfa 2 - Awdurdod Lleol yn gweini 10,000 o brydau'r dydd

Pe bai Awdurdod Lleol yn dymuno cefnogi prynu llysiau organig a chynaliadwy lleol a'r manteision a ddaw yn sgil hynny i Gymru, yna gallai ystyried gyfrannu 3.3c ychwanegol fesul pryd tuag at gynnyrch cynaliadwy Cymreig.

I Awdurdod lleol sy'n gweini 10,000 o brydau'r dydd am flwyddyn, byddai talu i sicrhau bod dau ddogn o lysiau yn rhai organig Cymreig am hanner y flwyddyn, yn cyfateb i dalu £65,000 ychwanegol o gyllideb o £5.85 miliwn ar gyfer prydau bob blwyddyn (1% o'i gyllideb gyfan). Yn ei dro byddai hyn yn:

- **Prynu 106 o dunelli gan roi £260,000 yn uniongyrchol i gynhyrchwyr Cymreig gyda lluosydd o 3.7 i roi amcangyfrif o £962 miliwn o fudd amgylcheddol cymdeithasol ac economaidd**
- **Mwy o gapasiti i ddarparu cyflenwadau yn y dyfodol a chynnydd yn incwm cyfartalog ffermydd yng Nghymru**
- **Mwy o wydnwch yn y gadwyn gyflenwi**
- **8.7 o swyddi CALl ar ffermydd Cymru**
- **Arbed 26.6 tunnell o Garbon $CO_2$ E**
- **Cynnydd o 35% yn nifer yr adar mewn caeau**
- **Dim gweddillion plaladdwyr**
- **Llai o ddibyniaeth ar fewnforion o wledydd sydd mewn perygl o ddioddef yn sgil effeithiau newid hinsawdd**



## Sefyllfa 3 - 50% o ofyniad llysiau ysgolion yn lleol ac organig

Rydym yn credu y gallai Cymru fod yn cynhyrchu 50% o ofynion llysiau ysgolion. Pe bai Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru yn cydweithio i gynyddu cyllideb prydau bwyd ysgolion cynradd o 1%, trwy ychwanegu dim ond 3.3c at y gost a ddarperir ar gyfer pryd bwyd ysgol, byddai'n arwain at gynhyrchu mwy o lysiau organig cynaliadwy yng Nghymru. Ar gyfer 170,000 o brydau y dydd y flwyddyn, dim ond £1.1 miliwn arall y flwyddyn y byddai hyn yn ei gostio, ar ben y £99.5 miliwn sy'n cael ei wario ar gyfartaledd gan Awdurdodau Lleol (1%) ond byddai'n arwain at y manteision canlynol i Gymru bob blwyddyn:

- Byddai prynu **1802 o dunelli** yn darparu **£4.42 miliwn** yn uniongyrchol i gynhyrchwyr Cymreig a chyda lluosydd o 3.7, yn creu amcangyfrif o **£16.4 miliwn** o fudd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol Cynnydd yn y capasiti i gyflenwi a chynnydd yn incwm cyfartalog ffermydd yng Nghymru
- Mwy o wydnwch yn y gadwyn gyflenwi
- **149 o swyddi CALl** ar ffermydd yng Nghymru
- Arbed **452 tunnell** o Garbon $CO_2$ E
- Cynnydd o **35%** yn nifer yr adar mewn caeau
- Dim gweddillion plaladdwyr
- Llai o ddibyniaeth ar fewnforion o wledydd sydd mewn perygl o ddioddef yn sgil effeithiau newid hinsawdd

Y realiti yw y bydd yn cymryd amser i gyrraedd y pwynt lle mae'r sylfaen a'r seilwaith cynhyrchu yn ddigonol i allu cyflenwi 50% o'r gofynion. Nod tymor byrrach mwy realistig fyddai anelu at sicrhau bod 25% o'r cyflenwad.

## Sefyllfa 4 - 25% o lysiau organig lleol erbyn 2030

Byddai 25% o gyflenwad organig Cymreig yn golygu 1.7c yn ychwanegol fesul pryd. Fodd bynnag, pe baech yn cadw'r targed o 3.3c nes cyrraedd 50%, gallai'r gwarged o 1.7c fynd tuag at ddatblygu seilwaith i'w gwneud hi'n bosibl cyflenwi 50% ar ôl 2030.

Pe bai gan bob plentyn ysgol gynradd sy'n bwyta prydau ysgol ddau ddogn o lysiau fesul pryd (120g) ac ar gyfartaledd bod chwarter o hynny'n organig o Gymru, byddai hyn yn dod â:

### 25% o Lysiau organig Cymreig: Manteision o ran cost

- Byddai prynu **901 tunnell** yn darparu **£2.21 miliwn** yn uniongyrchol i gynhyrchwyr Cymreig a chyda lluosydd o 3.7, yn creu amcangyfrif o **£8.2 miliwn** o fudd amgylcheddol cymdeithasol, economaidd
- Mwy o gapasiti i gyflenwi a chynnydd yn incwm cyfartalog ffermydd yng Nghymru
- Mwy o wydnwch yn y gadwyn gyflenwi
- **74.3 o swyddi CALl** ar ffermydd Cymru
- **50 hectar** o lysiau
- Arbed **225.9 tunnell** o Garbon CO2 E
- Cynnydd o **35%** yn nifer yr adar mewn caeau
- Dim gweddillion plaladdwyr na dŵr ffo
- Llai o ddibyniaeth ar fewnforion o wledydd sydd mewn perygl o ddioddef yn sgil effeithiau newid hinsawdd

Gellid hwyluso hyn i gyd drwy ychwanegu 1.7c y pryd at y gyllideb prydau gyfartalog bresennol. Yn gyffredinol byddai hyn yn costio £552,500 ar ben cyllideb o £99.5 miliwn (0.5% yn ychwanegol). OND mae angen i ni fuddsoddi mewn seilwaith, felly rydym yn awgrymu bod y 3.3c yn parhau, hyd yn oed yn y sefyllfa 25%, a fyddai'n darparu tua £550,000 y flwyddyn dros y 5 mlynedd nesaf i fuddsoddi yn ôl yn y gadwyn gyflenwi. Gallai hyn fod y ffactor allweddol sy'n galluogi datblygu a chreu'r gadwyn gyflenwi garddwriaeth wydn yr ydym yn ymdrechu amdani.



## Prisiau teg




Yn 2024, derbyniodd tyfwyr a oedd yn rhan o'r cynllun **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** y pris cyfanwerthol cyfartalog ar gyfer llysiau organig ar gyfer y flwyddyn flaenorol (yn seiliedig ar brisiau cyfanwerthol cyfartalog Cymdeithas y Pridd). Mae hyn yn bris da i dyfwyr gan ei fod yn cynnwys arian ychwanegol a fyddai fel arfer yn mynd i'r cyfanwerthwr. Fodd bynnag, o ystyried yr holl rwystrau eraill a wynebir gan dyfwyr sy'n cyflenwi cynnyrch i'r cynllun **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion**, fel gorfod bodloni'r Safon i Gyflenwr sy'n Dyfwyr Graddfa Fach ac ardystiad organig ac addasu i gyflenwad newydd gyda seilwaith newydd, dim ond digonol oedd y prisiau, o gymharu â phrisiau uniongyrchol i gwsmeriaid, i'w hysgogi i gymryd rhan.

Pan fydd y gadwyn gyflenwi'n gryfach ac yn fwy datblygedig a thyfwyr mewn sefyllfa fwy sicr i gyflenwi, awgrymir y dylai'r prisiau symud tuag at brisiau cyfartalog tyfwyr cynnyrch organig ac nid pris cyfanwerthu. Byddai hyn yn golygu y gallai'r cyfanwerthwyr dan sylw ddechrau ychwanegu at brisiau cynnyrch organig er mwyn gwneud elw, rhywbeth nad ydynt wedi'i wneud hyd yn hyn yn ystod y cyfnod peilot, er eu bod wedi elwa o ran y gwerth cymdeithasol sy'n cael ei gynhyrchu o'r cynnyrch lleol mewn perthynas ag elfen gwerth cymdeithasol contractau gydag Awdurdodau Lleol.

Posibilrwydd arall yw bod **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion**, dros amser, yn dod yn fath o gyfanwerthwr ei hun a bod yr endid yn cael ei ariannu drwy'r elw a fyddai fel arall yn mynd i gyfanwerthwr arall.





***'Hoffwn i feddwl, pan fydd llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion wedi datblygu, y gallech gael eich fframwaith agored eich hun. Mae'n ymwneud â mwy na chynnyrch organig a dyfir yn lleol. Mae'n ymwneud ag addysg hefyd.'***

Arbenigwr caffael Awdurdod Lleol

O ran **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion**, argymhellir dros amser y dylid lleihau canran y gostyngiad sy'n cael ei roi i Awdurdodau Lleol ar hyn o bryd ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru/Awdurdodau Lleol yn cynyddu'r cyllidebau rhyw fymryn, dyweder 1% (3.3c), a fyddai'n darparu mwy o fanteision na chefnogi cynhyrchu llysiau'n lleol drwy brosesau caffael i'w gynnig. Byddai hyn i bob pwrpas yn selio buddsoddiad yn y gadwyn gyflenwi gynaliadwy yn y system, yn hytrach na bod prosiect yn ei ychwanegu.

Gallai meysydd datblygu eraill gynnwys Awdurdodau Lleol sy'n ymgorffori llysiau tymhorol sy'n tyfu'n dda yng Nghymru ac sy'n rhatach na'r cyflenwad arferol, fel courgettes, bresych deiliog ac ysgallddail a datblygiadau yn y gadwyn gyflenwi fel storio, prosesu a rhewi. Mae'n werth cadw llygad ar waith Cyngor Sir Caerfyrddin a Bwyd Sir Gâr ar Fwydlen Cenedlaethau'r Dyfodol am arferion da o ran datblygu bwydlenni tymhorol a chynaliadwy:





## Bwyd Sir Gâr Food: **Bwydlen Cenedlaethau'r Dyfodol**[41]

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi lansio menter arloesol i ailgynllunio bwydlenni cinio ysgol gan ddefnyddio cynnyrch lleol, gyda'r nod o hybu iechyd a llesiant, cynaliadwyedd, gwerth cymdeithasol ac addysg. Nod Prosiect Bwydlen Ysgol Cenedlaethau'r Dyfodol yw ceisio sicrhau cyfatebiaeth rhwng gwasanaeth arlwyo'r sector cyhoeddus â pholisïau lleol a chenedlaethol, gan gynnwys cynaliadwyedd amgylcheddol, twf economaidd gwledig, a thargedau sero-net.

Mae'r cyngor wedi comisiynu Cegin y Bobl ddielw leol i weithio gydag ysgolion cynradd ledled Sir Gâr i gyd-greu'r bwydlenni newydd. Mae staff arlwyo, cynhyrchwyr a thyfwyr bwyd, athrawon, rhieni, a phlant yn ymuno â chogyddion ac addysgwyr o Cegin y Bobl i ddatblygu prydau sy'n adlewyrchu'r gwerthoedd craidd hyn. Mae'n adeiladu ar sylfeini cadarn Fframwaith Cynaliadwyedd Cenedlaethau'r Dyfodol, sy'n galluogi Staff Arlwyo a Chaffael i ddadansoddi a sgorio cynhwysion a chynhyrchion, ar y cyd â'r data a'r wybodaeth am yr hyn y gellir ei dyfu'n gynaliadwy ac ar raddfa fawr yma yng Nghymru gan y cynllun **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion**.

Bydd y prosiect hefyd yn cynhyrchu **ffeil ryseitiau gynhwysfawr, sydd ar gael i Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru**. Bydd hyn yn darparu glasbrint ar gyfer ysgolion ledled y wlad, gan eu helpu i integreiddio arferion bwyd cynaliadwy a chefnogi economïau lleol wrth gyflawni canlyniadau amgylcheddol a chymdeithasol cadarnhaol.

Dywedodd y Cynghorydd Carys Jones, Aelod o Gabinet Cyngor Sir Caerfyrddin dros Faterion Gwledig, Cynllunio a Chydlyniant Cymunedol:

*"Mae'r prosiect arloesol hwn nid yn unig yn cefnogi iechyd a llesiant ein pobl ifanc ond hefyd yn annog arferion cynaliadwy ac yn cryfhau ein heconomi leol. Mae'n gam pwysig tuag at wneud Sir Gâr yn arweinydd ym maes arlwyo cyfrifol yn y sector cyhoeddus."*

**Wrth ailwampio'r fwydlen fel hyn, pan fydd wedi'i chwblhau, byddwn yn gallu modelu'r galw am lysiau organig Cymreig os a phan fydd Awdurdodau Lleol eraill yn cyflwyno Bwydlen Cenedlaethau'r Dyfodol mewn Ysgolion Cynradd ledled Cymru.**

Ariennir y fenter gan Lywodraeth Cymru drwy'r Gronfa Cefnogi Cwmnïau Lleol a'r Gronfa Arloesedd ac mae'n rhan o ymrwymiad ehangach Cyngor Sir Caerfyrddin a Bwyd Sir Gâr i fwyd lleol, cynaliadwy ac iach.

[41] Bwyd Sir Gâr (Fel yn 2025) Bwydlen Cenedlaethau'r Dyfodol



# GWELEDIGAETH

## 25% o lysiau organig mewn ysgolion yn rhai organig Cymreig erbyn 2030

Gallai ychwanegu 3.3c at gost pryd ysgol, a fyddai'n ei gynyddu i £3.033 ar gyfartaledd, ddarparu bron i 50% o'r 2 ddogn o lysiau y dydd ar gyfer prydau mewn ysgolion cynradd yng Nghymru, gan dyfwyr organig yng Nghymru, gan arwain at yr enillion cymdeithasol ac amgylcheddol enfawr canlynol. Fodd bynnag, bydd yn cymryd amser a buddsoddiad i adeiladu'r seilwaith ar gyfer y cyflenwad ac felly yn lle hynny argymhellir y dylid gosod nod interim o 25% o lysiau o Gymru erbyn 2030, sy'n golygu mai dim ond 1.7c yn ychwanegol fesul pryd sydd ei angen yn y tymor byr. Dylid defnyddio'r 1.7c arall (£552,500 y flwyddyn) ar gyfer adeiladu seilwaith i anelu at sicrhau cyflenwad o 50% ar ôl 2030.





## Gwireddu'r weledigaeth – 25% erbyn 2030

Byddai ychwanegu 3.3c fesul pryd y diwrnod at y gost a delir gan Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru yn caniatáu i **2 ddogn o lysiau organig** lleol gael eu cynnwys yn y prydau yn dymhorol ac yn arwain at y manteision canlynol:

Byddai prynu **901 tunnell** yn darparu **£2.21 miliwn** yn uniongyrchol i gynhyrchwyr Cymreig gyda lluosydd o 3.7, i roi amcangyfrif o **£8.2 miliwn** o fudd amgylcheddol cymdeithasol, economaidd

Buddsoddiad o
**£552,500**
mewn seilwaith

**74.3** o swyddi CALI ar ffermydd Cymru

**50** hectar o lysiau organig

Cynnydd o **35%** yn nifer yr adar mewn caeau

Mwy o gapasiti i gyflenwi a chynnydd yn incwm cyfartalog ffermydd yng Nghymrus

Mwy o wydnwch yn y gadwyn gyflenwi

Arbed
**225.9 tunnel**
o garbon $CO_2$e

Lleihau'r ddibyniaeth ar fewnforion o wledydd sydd â risg uchel o ddioddef prinder dŵr



# CASGLIAD

Mae'r cynllun **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** yn parhau â'i genhadaeth yn 2025 gyda 12 awdurdod lleol yn cymryd rhan ynddo  a'i nod yw cael mwy o Awdurdodau Lleol, tyfwyr a chyfanwerthwyr i ymuno a gweithio gyda mwy o dyfwyr a chyfanwerthwyr. Mae Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion yn parhau i ddysgu o'r canfyddiadau hyn ac adeiladu arnynt er mwyn arloesi a datblygu prosesau caffael sy'n gwella llesiant pobl Cymru. Gyda'r gwaith cynllunio cywir a buddsoddiad sylweddol mewn seilwaith, gallai tua 25% o'r holl lysiau mewn ysgolion ledled Cymru fod yn rhai organig a dyfwyd yng Nghymru erbyn 2030 gan ddarparu'r holl fanteision a amlinellwyd eisoes.

## Dyma ein hargymhellion i wireddu'r weledigaeth honno:

### Tyfwyr, cynullwyr a chyfanwerthwyr

- Sefydlu **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** fel endid sy'n cefnogi tyfwyr, sy'n datblygu cyfathrebu a systemau, ac yn cysylltu tyfwyr â'r farchnad gaffael i greu sector Llysiau Cymreig Cynaliadwy
- **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** yn parhau i ddatblygu systemau ac yn ymchwilio i ffermio, cynaeafu, storio, pecynnu a logisteg, ac arferion gorau ar gyfer cynnyrch ffres.
- **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** yn gweithio gyda mwy o gyfanwerthwyr
- **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** yn modelu'r seilwaith sydd ei angen ar gyfer yr ehangu sy'n ofynnol a'r buddsoddiad sydd ei angen i gefnogi hynny cyn gynted â phosibl



## Llywodraeth ac Awdurdodau Lleol

- Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol yn ystyried ychwanegu tua 3c at gyllidebau prydau ysgolion cynradd (1% yn fwy nag a delir nawr) o 2026 ymlaen ar gyfer llysiau organig o Gymru a datblygu seilwaith, oherwydd y manteision cymdeithasol, amgylcheddol a gwydnwch a ddaw yn ei sgil i Gymru
- Llywodraeth Cymru yn cefnogi **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** i barhau i ddatblygu ac arloesi drwy gynllun yr Economi Sylfaenol ac Adnoddau Naturiol Integredig
- Llywodraeth Cymru yn cefnogi tyfwyr drwy haenau Dewisol a Chydweithredol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy
- Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi gwaith Garddwriaeth Cyswllt Ffermio i ddarparu cymorth a hyfforddiant ychwanegol i dyfwyr yn ogystal â grantiau seilwaith garddwriaeth
- Llywodraeth Cymru yn defnyddio **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** fel astudiaeth achos enghreifftiol o sut y gall caffael wella llesiant pobl Cymru yn unol â'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023
- Edrych ar gostau gwaredu gwastraff ceginau Awdurdodau Lleol i sicrhau nad yw hyn yn arwain yn anfwriadol at weini mwy o fwydydd wedi'u paratoi ymlaen llaw yn hytrach na rhai ffres sy'n creu mwy o wastraff pilion llysiau



## Awdurdodau Lleol, ysgolion a phlant yn ogystal â chynullwyr

- Pob Awdurdod Lleol neu ranbarth gwledig yn anelu at gael fferm arddangos garddwriaeth sydd â chylch peiriannau, ac efallai gyfleusterau prosesu a storio llysiau eraill, sy'n cael eu cynnal a'u cadw ac sydd ar gael i dyfwyr yn yr ardal honno
- Pob plentyn yng Nghymru yn cael y cyfle i ddysgu am Lysiau yn yr ysgol, yn cael y cyfle i dyfu llysiau, paratoi llysiau, blasu gwahanol lysiau a 'chwarae' gyda llysiau. Dylid cefnogi ysgolion i ddatblygu cwricwla ac i gael mynediad at adnoddau drwy hyfforddiant staff priodol (er enghraifft Sgiliau Maeth am Oes[42]) a'r adnoddau i'w rhoi ar waith.
- Rhoi plant wrth wraidd y broses o fwyta mwy o lysiau. Adeiladu ar waith asedau fel Veg Power a'r Awr Fwyd i ymgysylltu â phlant i ddeall eu hoffterau; helpu gyda dylunio bwydlenni, ac annog plant i flasu bwydydd newydd, er mwyn cynyddu'r llysiau a fwyteir a lleihau gwastraff.
- Dylai pob plentyn yng Nghymru gael y cyfle i ymweld â fferm lysiau a chwrdd â thyfwr unwaith yn ystod eu haddysg yn yr ysgol gynradd a dylai pob ysgol gael man tyfu neu fynediad at un.
- Grymuso staff arlwyo ysgolion a rhoi'r mandad iddynt 'fod yn greadigol' gyda llysiau a'u cefnogi i ddatblygu'r sgiliau gofynnol a'r adnoddau sydd eu hangen i weithredu



[42] GIG Cymru (Fel yn 2025) Sgiliau Maeth am Oes



# DIOLCH

Diolch yn fawr i gyllidwyr **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** a phawb a fu'n rhan o'r gwaith o wireddu **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion**. Mae llwyddiant y prosiect i'w briodoli i'r cydweithio rhagorol ar draws y system fwyd a thu hwnt.

I ddysgu mwy, gweler: Stori Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion

Mae atodiadau ar gael yma a gellir cael cyfrifiadau sy'n sail i'r dadansoddiad yn y ddogfen hon drwy e-bostio cais i foodsensewales@wales.nhs.uk


Synnwyr Bwyd Cymru Food Sense Wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Bwyd a Hwyl Food and Fun

Castell Howell

Farming connect cyswllt ffermio

Lantra

Pontio'r Bwlch Bridging the Gap

monmouthshire sir fynwy